Ffrind plant drwg

Parchu / dyfalbarhad / gostyngeiddrwydd

Robert Raikes: 1736–1811

Ydych chi'n mwynhau mynd i'r ysgol? Erstalwm, doedd plant ddim yn mynd i'r ysgol. Roedden nhw'n dechrau gweithio'n ifanc iawn. Mae sôn am blant wyth a naw oed yn gweithio bob dydd o'r wythnos. Roedden nhw'n gweithio mewn ffatrïoedd a phyllau glo. Yr unig ddiwrnod nad oedden nhw'n gweithio oedd dydd Sul.

Ar ddydd Sul byddai'r plant yn rhedeg yn wyllt ar hyd y strydoedd. Dyma stori am ddyn a wnaeth gymaint i helpu plant oedd yn gweithio am chwe diwrnod bob wythnos.

Dyn cyfoethog oedd Robert Raikes. Roedd yn berchennog gwasg papur newydd. Byddai'n cerdded i'w swyddfa bob dydd mewn dillad crand. Pan welai rywun ar y stryd byddai bob amser yn codi'i het iddyn nhw. Roedd pawb yn parchu Mr Raikes. Er ei fod yn ddyn cyfoethog, roedd hefyd yn ddyn oedd yn barod i helpu pawb. Roedd yn poeni fod y plant yn rhedeg yn wyllt ar ddydd Sul. Beth allai wneud i'w helpu?

Erbyn amser cinio, roedd y rhan fwyaf o'r plant ar y stryd. Dechreuodd y plant mawr daflu cerrig at y tai. Daeth un wraig i ddrws y tŷ a phan gerddodd tua'r giât, fe redodd un o'r bechgyn bach a phoeri yn ei hwyneb.

Daeth ei gŵr allan ac meddai, "Os na fyddwch chi'n mynd oddi yma fe fydd dynion y stryd yma yn rhoi cweir iawn i chi."

Dim ond tynnu ei dafod wnaeth y bachgen a rhedeg i ffwrdd. Fel roedd y dyn yn mynd i mewn i'r tŷ, fe daflodd garreg arall tuag at y drws. Yng nghornel y stryd roedd criw o fechgyn a genethod yn gweiddi a sgrechian. Drwy'r Sul, bob Sul, dyna fyddai'r hanes.

Ar ôl siarad â ffrindiau, meddyliodd Robert Raikes y byddai'n beth da i agor ysgol i blant ar ddydd Sul. Ysgol oedd hon i ddysgu'r plant i ddarllen a gwrando ar storïau. Roedden nhw hefyd yn dysgu sut i sgwennu. Ar ôl iddyn nhw ddysgu darllen, roedd y plant yn cael cyfle i ddarllen y Beibl. Byddai Raikes yn mynd â'r plant i'r eglwys er mwyn iddyn nhw ddysgu sut i ymddwyn. Roedd hyn yn waith caled iawn gan fod y plant mor wyllt.

O dipyn i beth, roedd y bobl yn sylwi bod y plant yn

ymddwyn yn well. Doedd yna ddim gweiddi a rhedeg yn wyllt ar y Sul. Gan fod Raikes yn berchennog gwasg papur newydd, roedd y newydd am yr ysgolion Sul yn lledaenu trwy'r wlad i gyd. Yn raddol fe agorwyd ysgolion Sul ar hyd a lled y wlad. Gellir dweud mai Robert Raikes oedd un o sylfaenwyr yr ysgol Sul yn Lloegr.

"A chymerodd blentyn a'i osod yn eu canol hwy; cymerodd ef i'w freichiau a dywedodd wrthynt, 'Pwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn f'enw i, y mae'n fy nerbyn i...'"

Marc 9:36-37

Diolch i Ti, O Dad,
am waith yr ysgol Sul.
Diolch am yr athrawon
sy'n rhoi o'u hamser
i ddysgu'r plant. Diolch am bob math o
lyfrau a gêmau i
wneud y gwaith yn ddifyr i'r plant.
Amen.

Oes yna le i'r ysgol Sul heddiw?
Ydych chi'n gwybod beth sy'n digwydd mewn ysgol Sul?
Ysgrifennwch i holi plant sy'n mynd i'r ysgol Sul.

Robert Raikes: 1736-1811